**Taflen 3**

Gwybodaeth i rieni

# Canllaw i GYFARFODYDD SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN

Mae Awdurdod Lleol Caerdydd yn annog dysgwyr, rhieni, ysgolion, lleoliadau a gweithwyr proffesiynol i weithio mewn partneriaeth.



CARDIFF
CAERDYDD

> **Arfer sy’n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yw’r broses barhaus o wrando ar yr hyn sy’n bwysig i’r unigolyn nawr ac yn y dyfodol, gyda theulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i sicrhau bod hynny’n digwydd.**

## Beth yw Dull sy’n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

- Mae’n ystyried dymuniadau, barn a dyheadau’r plentyn neu’r person ifanc
- Y plentyn neu’r person ifanc yw'r ffocws. Mae'n ystyried yr unigolyn cyfan ac nid dim ond yr hyn na all ei wneud neu ei ddiagnosis
- Mae'r plentyn, ei rieni/gofalwyr neu’r person ifanc wrth wraidd y cynllunio a’r penderfyniadau a wneir
- Mae'n cynnwys pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn treulio amser gyda'r plentyn/person ifanc (y teulu, gweithwyr iechyd, cylch chwarae, addysg, gofal cymdeithasol – dull amlasiantaethol)
- Mae'n ymwneud â gwrando, arsylwi a dysgu parhaus.

## Pam mae Cyfarfodydd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn cael eu trefnu?

Gall ysgol neu Awdurdod Lleol drefnu Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn er mwyn casglu gwybodaeth gan bawb sy'n ymwneud â chefnogi eich plentyn. Gall hyn fod i gefnogi ei anghenion gofal iechyd, addysgol neu les yn yr ysgol.

Ar y cyd, gellid gwneud penderfyniad o ran a oes gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gofyn am Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol neu a oes angen gwneud atgyfeiriadau priodol.

# Beth sy'n digwydd cyn y Cyfarfod/ Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Bydd y person sy'n arwain y cyfarfod yn:

- Sicrhau eich bod chi a'ch plentyn yn cymryd rhan
- Gwahodd gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n cymryd rhan weithredol
- Trefnu man cyfarfod addas
- Casglu gwybodaeth
- Ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych

Cyn y cyfarfod mae angen i bawb ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth rydym ni'n ei hoffi a'i edmygu am y plentyn?
- Beth sy'n bwysig i'r plentyn?
- Beth sy'n gweithio?
- Beth nad yw'n gweithio?
- Beth sy'n bwysig i'r plentyn nawr ac yn y dyfodol?

# Beth sy'n digwydd mewn Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Bydd y person sy'n arwain y cyfarfod yn ceisio gwneud i bawb deimlo eu bod yn cael croeso. Bydd y cyfarfod mor rhyngweithiol â phosibl a bydd pawb yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu. Caiff yr holl wybodaeth isod ei thrafod yn y cyfarfod a'i defnyddio i roi Cynllun Gweithredu ar waith i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc yn yr ysgol neu'r coleg.



## Beth yw Proffil Un Dudalen?

Gellir llunio Proffil Un Dudalen gyda chi neu'ch plentyn cyn neu yn ystod y Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Nod y Proffil Un Dudalen yw rhoi cipolwg cadarnhaol o'ch plentyn, gan gynnwys: Beth sy'n wych am eich plentyn, beth sy'n bwysig i'ch plentyn a sut allwn ni ei gefnogi?

Gellir datblygu Proffil Un Dudalen ymhellach ac ychwanegu gwybodaeth ato cyn, yn ystod, neu yn dilyn y Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

## Beth all ddigwydd ar ôl Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Cynhelir Cyfarfod neu Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn gan yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol er mwyn rhoi cynllun ar waith i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Nid proses i'w gwneud I'R plentyn yw'r dull Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac nid yw'n gynllun, templed na dogfen statig.

## Beth yw canlyniadau posibl Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Gellir defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn y Cyfarfod neu'r Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn i lywio ystod o gynlluniau fel Cynllun Gofal Iechyd Unigol, Proffil Un Dudalen neu Gynllun Datblygu Unigol.

All plans will be reviewed with you and your child at least once a year or sooner if there is a significant change in your child's life.

Os oes angen help a chefnogaeth ychwanegol arnoch ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol, gellir ceisio hyn oddi wrth eiriolwr. Eiriolwr yw rhywun a fydd yn mynychu cyfarfodydd gyda chi ac yn siarad ar eich rhan. Os oes angen eiriolwr proffesiynol arnoch, gallwch gysylltu â SNAP Cymru, elusen genedlaethol sy'n gweithio ledled Caerdydd sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth annibynnol am ddim i rieni plant a phobl ifanc sydd neu a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol. Ewch i www.snapcymru.org am fwy o wybodaeth neu gallwch gysylltu â nhw ar rif ffôn 0808 8010608.

**Os oes gennych gwestiynau neu ymholiadau, gallwch gysylltu â llinell gymorth a chyngor ADY yr Awdurdod Lleol ar: Ffôn: 02920 872 731**
**neu E-bost: LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk**

Crëwyd Hydref 2023

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD